OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 531

# Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2012

## RHAN 2

GWEITHDREFNAU TRIBIWNLYS EIDDO PRESWYL

**Gorchmynion interim**

**22.**—(1) Caiff tribiwnlys wneud gorchymyn ar sail interim ("gorchymyn interim") sydd—

(a) yn atal, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, effaith unrhyw benderfyniad, hysbysiad, gorchymyn neu drwydded sy'n destun achos ger ei fron; neu

(b) yn caniatáu dros dro unrhyw rwymedi y byddai gan y tribiwnlys bŵer i'w ddyfarnu yn ei benderfyniad terfynol.

(2) Pan fo'r tribiwnlys yn gwneud gorchymyn interim heb yn gyntaf ganiatáu cyfle i'r partïon wneud sylwadau ynghylch gwneud y gorchymyn, caiff parti ofyn am i'r gorchymyn interim gael ei amrywio neu ei ddiddymu.

(3) Ceir gwneud unrhyw gais o'r fath am amrywio neu ddiddymu—

(a) ar lafar mewn gwrandawiad;

(b) mewn ysgrifen; neu

(c) drwy unrhyw ddull arall a ganiateir gan y tribiwnlys.

(4) Rhaid i'r tribiwnlys, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl gwneud gorchymyn interim, ddarparu i bob un o'r partïon hysbysiad o'r gorchymyn interim; a rhaid i'r hysbysiad, ac eithrio yn achos gorchymyn a wneir gyda chydsyniad pob un o'r partïon, roi'r rhesymau dros y penderfyniad i wneud y gorchymyn.

(5) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i gais y mae rheoliad 10 (ceisiadau brys am awdurdodiad GRhI) neu reoliad 11 (ceisiadau brys o dan Ddeddf 1983 mewn perthynas â gwerthu neu roi cartref symudol) yn gymwys iddo.